**CAW65 Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

# Ymgynghoriad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

**Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer Craffu Cyfnod 1 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).**

## Amdanoch Chi

Sefydliad: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

## 1. Egwyddorion cyffredinol y Bil

### 1.1 A ydych yn cefnogi egwyddorion y Bil Cwricwlwm ac Asesu(Cymru)?

Yn rhannol

### 1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,500 o eiriau)*

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn cytuno gyda'r mwyafrif o gynnwys y Mesur (Bil Cwricwlwm ac Asesu Cymru), a gyda'r egwyddorion sydd y tu cefn i'r Mesur. Cytuna'r Llyfrgell Genedlaethol ei bod yn amser i "ddisodli'r cwricwlwm cenedlaethol presennol yng Nghymru, a sefydlwyd ym 1988 ar sail Cymru a Lloegr, gyda Chwricwlwm newydd i Gymru". Mae'r Llyfrgell yn cytuno yn rhannol gyda'r egwyddor o fabwysiadu cwricwlwm sydd yn rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion ddarparu cwricwlwm lleol yn unol ag anghenion ei disgyblion. Serch hynny, mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn anghytuno gyda'r penderfyniad i beidio nodi yn eglur yn y cwricwlwm yr hyn sy'n ofynnol i ddisgyblion ei wybod er mwyn deall stori Cymru, ac i amlinellu 'corff cyffredin' o wybodaeth y dylai pob disgybl yng Nghymru wybod am y wlad. Credwn bod angen i Gymru, fel y mwyafrif o wledydd eraill ar draws y byd, sicrhau bod stori ein cenedl ni wrth galon cwricwlwm pob ysgol yn y wlad. Dylai disgyblion gael eu hannog i astudio a deall eu hardal leol, amrywedd ethnig a diwylliannol Cymru, a chymunedau, hanes, diwylliant, tirwedd a diwydiant yng Nghymru, fel y gallan nhw ddysgu sut mae Cymru wedi datblygu i'r hyn ydyw heddiw. Credwn hefyd y dylid astudio sut y mae perthynas Cymru, a hyd yn oed rhannau ohoni, â gweddill Prydain, Ewrop a gweddill y byd yn gymhleth ac yn newid trwy'r amser. Trwy hynny gall y

cwricwlwm hyrwyddo dealltwriaeth o gydberthynas pobl Cymru gyda gweddill y byd, a’r rhan y mae Cymru wedi ei chwarae wrth lunio’r byd modern.

Mae’r Llyfrgell Genedlaethol yn nodi bod gan y cyrff treftadaeth cenedlaethol gasgliadau cyfoethog y gellid eu defnyddio er mwyn adrodd stori Cymru, ac yn croesawu cyfleoedd i gyfrannu adnoddau dysgu at y nod hwn. Fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru credwn ei bod yn bwysig bod ysgolion yn adrodd ein stori genedlaethol.

Mae’r Llyfrgell yn croesawu’r cyfeiriadau at Gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ac yn cytuno gyda’r nod sydd yn y mesur i wneud Cymraeg yn orfodol ac i ddisodli’r gwahaniaeth cyfredol rhwng Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn cefnogi'r prif egwyddorion yn y Mesur, y pedwar diben ar gyfer y cwricwlwm, y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, a'r tri sgil trawsgwricwlaidd gorfodol. Credwn ei bod yn bwysig i ni dynnu sylw at y ffaith bod gennym gasgliadau sydd yn medru cefnogi gwaith yn nifer o'r meysydd dysgu a phrofiad, yn arbennig y celfyddydau mynegiannol, y dyniaethau, a ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu.

Rydyn ni'n cytuno y dylai hwn fod yn gwricwlwm sy'n darparu ar gyfer disgyblion o oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol, ac yn croesawu’r pwyslais ar ymchwil, chwilfrydedd ac archwilio er mwyn dysgu am am y gorffennol, y presennol a’r dyfodol.

**1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni’r hyn y mae’r Bil hwn yn ceisio’i gyflawni?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Mae angen deddfu er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei fabwysiadu ar draws Cymru, ac er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i ddisgyblion ar draws Cymru, a chysondeb o ran safonau addysgol ar draws Cymru.

## 2. Gweithredu’r Bil

**2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu’r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Rydyn ni'n nodi bod yr amserlen yn dynn o ran paratoi a gweithredu cwricwlwm newydd erbyn Medi 2022. Bydd angen cefnogaeth ddwys ar ysgolion er mwyn cynllunio eu cwricwlwm, hyfforddi athrawon, datblygu adnoddau, a pharatoi i weithredu'r cwricwlwm.

**2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Mae'r mesur yn nodi na fydd y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno i bod blwyddyn ddysgu ar yr un pryd.

## 3. Canlyniadau anfwriadol

**3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

-

## 4. Goblygiadau ariannol

**4.1 A oes gennych farn am oblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 5.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

-

## 5. Pwerau I wneud is-ddeddfwriaeth

**5.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am addasrwydd y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'i nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 6.1.**

(*byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau.*)

Mae'n bwysig bod yr adnoddau dysgu yn eu lle cyn i'r cwricwlwm newydd gael ei weithredu ym mis Medi 2022 yn yr ysgol gynradd ac ym Mlwyddyn 7 i ddechrau, ac yna i fyny at Flwyddyn 11 yn 2026/27. Bydd angen sicrhau bod adnoddau, athrawon ac addysgwyr cymwys mewn lle er mwyn medru gwireddu'r nod o ddysgu Cymraeg i bob person ifanc hyd at 16 oed.

## 6. Ystyriaethau eraill

### 6.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,000 o eiriau)*

-